

# Briff Ymchwil Gofal iechyd trawsffiniol

---

Awdur: **Philippa Watkins**  
Dyddiad: **Mehefin 2016**



Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Y Gwasanaeth Ymchwil

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Awdur: **Philippa Watkins**

Dyddiad: **Mehefin 2016**

Rhif Papur: **16-029**

## Cysylltwch â ni

Y Gwasanaeth Ymchwil  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Tŷ Hywel  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1NA

☎: 0300 200 6320

✉: [Philippa.Watkins@Cynulliad.Cymru](mailto:Philippa.Watkins@Cynulliad.Cymru)

🌐: [Cynulliad.Cymru/Pigion](http://Cynulliad.Cymru/Pigion)

🐦: [@SeneddYmchwil](https://twitter.com/SeneddYmchwil)

🌐: [Cynulliad.Cymru/Ymchwil](http://Cynulliad.Cymru/Ymchwil)

## © Hawffraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2016

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na diffrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawffraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

# Briff Ymchwil

## Gofal iechyd trawsffiniol

---

Mae llawer o bobl yn teithio rhwng Cymru a Lloegr, gan gynnwys ar gyfer gwasanaethau gofal iechyd, am fod y ffin rhwng y ddwy wlad yn hir ac yn hawdd ei chroesi. Oherwydd y gwahaniaeth cynyddol rhwng polisiau a systemau iechyd Cymru a Lloegr, gall cleifion sy'n byw ar un ochr o'r ffin ond sy'n defnyddio cyfleusterau gofal iechyd ar yr ochr arall fod yn ansicr ynglŷn â'r hyn y dylent ei ddisgwyl. Nod y papur hwn yw egluro'r trefniadau ar gyfer gofal iechyd trawsffiniol yng Nghymru a Lloegr, o ran y gwasanaethau sydd ar gael i gleifion a'r trefniadau comisiynu rhwng y GIG yng Nghymru a'r GIG yn Lloegr.

---



# 1. Cyflwyniad

Mae nifer sylweddol o gleifion yn croesi'r ffin rhwng Cymru a Lloegr ym mhob maes gofal iechyd. Gellir priodoli hyn i raddau helaeth i ffactorau fel cyfleustra daearyddol a diffyg darpariaeth yn ardal y claf ei hun. Mae cyfleustra daearyddol yn ffactor pwysig mewn gofal sylfaenol, lle y gall cleifion sy'n byw mewn ardaloedd ar y ffin ddewis cofrestru â meddyg teulu mor agos at eu cartrefi â phosibl, er nad yw hynny yn y wlad y maent yn byw ynddi o bosibl. Ym mis Ebrill 2016, roedd tua 15,000 o drigolion Cymru wedi'u cofrestru â meddyg teulu yn Lloegr, ac roedd tua 21,000 o drigolion Lloegr wedi'u cofrestru â meddyg teulu yng Nghymru.

Ym maes gofal iechyd eilaidd a gofal iechyd trydyddol (arbenigol) hefyd, mae diffyg darpariaeth yn ardal y claf yn ffactor mawr. Efallai na fydd digon o boblogaeth mewn rhai ardaloedd i gefnogi ysbyty mawr neu ganolfan arbenigol, a gall fod angen i gleifion o'r ardaloedd hyn deithio ymhellach, gan gynnwys dros y ffin, i gael triniaeth. Derbyniwyd dros 56,000 o drigolion Cymru i un o ysbytai'r GIG yn Lloegr yn 2014-15. Yn yr un cyfnod, derbyniwyd tua 10,500 o gleifion o Loegr i un o ysbytai'r GIG yng Nghymru.

## 2. Beth yw goblygiadau hyn i gleifion?

Pan fo gwahaniaeth polisi rhwng y GIG yng Nghymru a'r GIG yn Lloegr, gall fod ansicrwydd i'r cleifion dan sylw ynghylch eu sefyllfa. Er enghraifft: a allant ddewis i ba ysbyty y byddant yn mynd i gael triniaeth? Pa mor hir y dylent ddisgwyl aros cyn dechrau cael triniaeth? A yw polisi presgripsiynau am ddim Cymru yn berthnasol iddynt?

### Presgripsiynau am ddim

Mae gan bob claf sydd wedi'i gofrestru â meddyg teulu yng Nghymru yr hawl i gael presgripsiynau am ddim, gan gynnwys cleifion o Loegr sydd â'u meddyg teulu yng Nghymru. Fodd bynnag, dim ond mewn fferyllfeydd yng Nghymru y caiff presgripsiynau eu rhoi yn rhad ac am ddim. Codir tâl ar gleifion sy'n casglu eu presgripsiynau y tu allan i Gymru ar y cyfraddau sy'n gymwys yn y wlad honno.

Mae cleifion o Gymru sydd â meddyg teulu yn Lloegr hefyd yn gymwys i gael presgripsiynau am ddim, ond byddai angen iddynt wneud cais am 'gerdyn hawl' gan eu bwrdd iechyd lleol.

Os caiff cleifion o Gymru eu trin mewn ysbytai neu gan wasanaethau y tu allan i oriau yn Lloegr, ac os codir tâl arnynt am bresgripsiynau yn ôl cyfradd Lloegr, gallant hawlio ad-daliad.

### Dewis i gleifion

Yn Lloegr, mae gan gleifion yr hawl i ddewis i ba ysbyty y bydd eu meddyg teulu yn eu hanfon. Mae hyn hefyd yn berthnasol i drigolion Cymru sydd wedi'u cofrestru â meddyg teulu yn Lloegr. Mae'r hawl gyfreithiol hon yn caniatáu i gleifion ddewis unrhyw ysbyty yn Lloegr sy'n cynnig triniaeth addas sy'n cyrraedd safonau ac o fewn costau'r GIG.

Nid yw'r GIG yng Nghymru yn gweithredu system o roi'r dewis i gleifion, ond mae'n ceisio darparu gwasanaethau yn agos at gartref y claf pan fo hynny'n bosibl. Nid oes gan gleifion sydd wedi'u cofrestru â meddyg teulu yng Nghymru hawl statudol i ddewis i ba ysbyty y cânt eu hanfon. Mae'r un peth yn wir hefyd am gleifion o Loegr sydd â'u meddyg teulu yng Nghymru.

## Amseroedd aros

**Amseroedd aros GIG Cymru** a'r meini prawf atgyfeirio perthnasol fydd yn gymwys i unrhyw berson (o Gymru neu o Lloegr) sydd wedi'i gofrestru â meddyg teulu yng Nghymru ac sy'n cael ei atgyfeirio ar gyfer profion / triniaeth, p'un ai a yw'n cael ei anfon i ysbyty yn Lloegr neu yng Nghymru.

Yn achos unrhyw glaf sydd wedi'i gofrestru â meddyg teulu yn Lloegr, yr **amseroedd aros** / meini prawf yn Lloegr fydd yn gymwys os caiff ei atgyfeirio i ysbyty yn Lloegr, a'r safonau yng Nghymru fydd yn gymwys os caiff ei atgyfeirio i ysbyty yng Nghymru.

Y prif darged o ran amseroedd aros yng Nghymru yw y dylai cleifion fod yn aros llai na 26 wythnos rhwng atgyfeirio a thriniaeth.

Yn Lloegr, mae gan gleifion hawl i ddechrau triniaeth dan ofal meddyg ymgynghorol o fewn 18 wythnos fan bellaf oni bai eu bod yn dewis aros yn hwy, neu os byddai'n briodol iddynt aros yn hwy o safbwynt clinigol.

Mae'r tabl isod yn rhoi crynodeb o'r hyn y gall cleifion ei ddisgwyl o ran y safonau ar gyfer cael gafael ar ofal iechyd yn dibynnu ar ble y maent yn byw, lleoliad eu meddyg teulu a'u darparwr gofal iechyd. (Yn ogystal â thargedau amseroedd aros mae hyn yn cynnwys trothwyon ar gyfer triniaeth a meini prawf atgyfeirio eraill a bennir gan y bwrdd iechyd lleol neu'r grŵp comisiynu clinigol.)

Preswylfa	Lleoliad meddyg teulu	Darparwr yn Lloegr i fodloni:	Darparwr yng Nghymru i fodloni:
Cymru	Cymru	Safonau Llywodraeth Cymru	Safonau Llywodraeth Cymru
Cymru	Lloegr	Cyfansoddiad y GIG	Safonau Llywodraeth Cymru
Lloegr	Lloegr	Cyfansoddiad y GIG	Safonau Llywodraeth Cymru
Lloegr	Cymru	Safonau Llywodraeth Cymru	Safonau Llywodraeth Cymru

Pwysleisir y dylid sicrhau gwasanaethau ar ddwy ochr y ffin ar sail **anghenion clinigol** ac yn unol â'r safonau perthnasol fel gofyniad sylfaenol. Dyma a **ddywedodd** y Gweinidog Iechyd:

*(...) the policy in Wales is that Welsh patients who are treated in England should be treated in order of clinical priority, and within Welsh waiting times. English patients being treated in Wales should be seen in order of clinical priority, and within Welsh waiting times. This is underpinned in the cross border protocol and is aimed at providing a pragmatic approach to the practical issues arising from the two different health systems and to prevent referral into the respective systems being used in a way not based on clinical priority.*

## Ymchwiliad y Pwyllgor Materion Cymreig

Yn 2014/15, cynhaliodd Pwyllgor Materion Cymreig Tŷ'r Cyffredin **ymchwiliad** i'r trefniadau gofal iechyd trawsffiniol rhwng Cymru a Lloegr, sy'n dilyn ei ymchwiliad yn 2009.

Daeth y Pwyllgor i'r casgliad bod angen gwneud mwy i sicrhau nad yw'r polisiâu gwahanol sydd wedi dod i'r amlwg ers datganoli yn effeithio ar bobl sy'n dibynnu ar gyfleusterau gofal iechyd y naill ochr a'r llall i'r ffin. Argymhellodd y dylai'r Adran Iechyd a Llywodraeth Cymru gydweithio ag ymarferwyr

meddygol, yn enwedig meddygon teulu, i sicrhau bod cleifion yn cael mwy o wybodaeth am y gwahaniaethau rhwng polisiâu gofal iechyd Cymru a Lloegr, a'u bod yn deall sut y gallai dewis meddyg teulu yng Nghymru neu yn Lloegr effeithio ar eu gofal.

### 3. Trefniadau comisiynu

Yn Lloegr, mae 211 o grwpiau comisiynu clinigol, o dan oruchwyliaeth GIG Lloegr, yn comisiynu'r rhan fwyaf o wasanaethau ysbyty a chymunedol y GIG yn yr ardaloedd lleol y maent yn gyfrifol amdanynt. Ymddiriedolaethau'r GIG ac Ymddiriedolaethau Sefydledig y GIG sy'n darparu'r gwasanaethau hyn yn bennaf. Caiff gwasanaethau arbenigol eu comisiynu ar lefel genedlaethol gan y GIG yn Lloegr.

Yng Nghymru, nid oes y fath raniad rhwng y prynwr a'r darparwr. Mae'r saith bwrdd iechyd lleol yn gyfrifol am gynllunio gwasanaethau gofal iechyd a'u darparu. Yn gyffredinol, y byrddau iechyd lleol sy'n gyfrifol am gomisiynu pob math o ofal sylfaenol, eilaidd a thrydyddol ac mae gwasanaethau arbenigol iawn yn cael eu comisiynu drwy gydbwyllgor, sef Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru, sy'n gweithredu ar ran y byrddau iechyd lleol.

Caiff y trefniadau ar gyfer comisiynu gofal iechyd trawsffiniol eu nodi mewn **protocol** rhwng Llywodraeth Cymru a Bwrdd Comisiynu'r GIG yn Lloegr. Cyhoeddwyd y fersiwn ddiweddaraf ym mis Ebrill 2013. Mae'r protocol yn cael ei adolygu bob tair blynedd fel arfer.


Mae'r protocol yn nodi pa gorff sy'n gyfrifol am gomisiynu gwasanaethau gofal iechyd i bobl sy'n byw ar un ochr o'r ffin ond sydd wedi'u cofrestru â meddyg teulu ar yr ochr arall. Yn ôl y protocol, pennir cyfrifoldeb gweithredol am gomisiynu gwasanaethau yn unol â ble y mae'r claf wedi'i gofrestru â meddyg teulu, yn hytrach na ble y mae'n byw. Mae trigolion o Gymru sydd wedi'u cofrestru â meddyg teulu yn Lloegr yn cael eu trin fel cleifion o Loegr. Yn yr un modd, mae trigolion o Loegr sydd wedi'u cofrestru â meddyg teulu yng Nghymru yn cael eu trin fel cleifion o Gymru.

Mae'r tabl isod yn rhoi crynodeb o bwy sy'n gyfrifol am drefnu ac ariannu gwasanaethau (ac eithrio rhaglenni sgrinio cenedlaethol) o dan y protocol. (Mae'r rhan fwyaf o **raglenni sgrinio cenedlaethol** yn seiliedig ar ble y mae cleifion yn bwy, yn hytrach na ble y maent wedi'u cofrestru â meddyg teulu.)

Preswylfa	Lleoliad meddyg teulu	Cyfrifoldeb an drefnu ac ariannu gwasanaethau	Corff sy'n gyfreithiol gyfrifol
Cymru	Cymru	Bwrdd iechyd lleol	Bwrdd iechyd lleol
Cymru	Lloegr	Grŵp comisiynu clinigol	Bwrdd iechyd lleol
Lloegr	Lloegr	Grŵp comisiynu clinigol	Grŵp comisiynu clinigol
Lloegr	Cymru	Bwrdd iechyd lleol	Grŵp comisiynu clinigol

Mae byrddau iechyd lleol yn parhau'n gyfreithiol gyfrifol am drigolion sy'n byw yn yr ardal, ond sydd wedi'u cofrestru â meddyg teulu yn Lloegr. Yn yr un modd, mae grwpiau comisiynu clinigol yn parhau'n gyfreithiol gyfrifol am drigolion sy'n byw yn yr ardal, ond sydd wedi'u cofrestru â meddyg teulu yng Nghymru.

Mae'r trefniadau uchod yn berthnasol i bobl sy'n byw yn yr ardaloedd canlynol ar y ffin rhwng Cymru a Lloegr:



Yn achos cleifion sy'n byw mewn rhannau eraill o Gymru neu Lloegr, bydd y bwrdd iechyd lleol neu'r grŵp comisiynu clinigol ar gyfer yr ardal a ddiffinir fel preswylfa arferol y claf yn parhau'n gyfrifol am gomisiynu gwasanaethau gofal iechyd.

## Cyllid

### Gofal sylfaenol

Ni throsglwyddir cyllid rhwng Cymru a Lloegr ar gyfer gwasanaethau gofal sylfaenol a ddarperir dros y ffin, gan gynnwys gwasanaethau meddyg teulu, deintyddiaeth a gwasanaethau offthalmig. Bydd unrhyw gostau yn cael eu talu lle y maent yn codi, drwy drefniant dwyochrog sy'n taro rhyw fath o gydbwysedd bras. Dyma a ddywedodd Gweinidog Iechyd Cymru wrth y Pwyllgor Materion Cymreig:

*At primary care, we essentially operate on a knock-for-knock basis. The Welsh NHS picks up the costs of primary care for some patients who live in England and the English NHS picks up the primary care costs for some patients who live in Wales.*

### Gofal eilaidd/trydyddol

Nod y protocol yw sicrhau na fydd dim diffyg ariannol i unrhyw fwrdd iechyd yng Nghymru neu grŵp comisiynu clinigol yn Lloegr o ddarparu gwasanaethau gofal iechyd i drigolion y wlad arall. Mae Llywodraeth Cymru yn cael taliad blynyddol gan yr Adran Iechyd er mwyn cydnabod y costau gofal

eilaidd ychwanegol a ysgwyddir gan y GIG yng Nghymru oherwydd y swm net o gleifion o Loegr sy'n defnyddio gofal sylfaenol yng Nghymru (mae tua 15,000 o drigolion Cymru wedi'u cofrestru â meddygon teulu yn Lloegr a thua 21,000 o drigolion Lloegr wedi'u cofrestru â meddygon teulu yng Nghymru, sy'n gyfystyr â mewnlifiad net o 6,000 o gleifion).

Yn achos cleifion o Gymru (sydd â meddyg teulu yng Nghymru) sy'n cael triniaeth yn Lloegr, mae comisiynwyr Cymru (byrddau iechyd lleol a Phwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru) yn talu'r darparwyr yn Lloegr yn unol â system talu tariffau genedlaethol.

Pan fo cleifion o Loegr sydd â meddyg teulu yn Lloegr yn cael gwasanaethau gofal eilaidd/trydyddol yng Nghymru, mae'r darparwr yng Nghymru a'r comisiynydd yn Lloegr yn cytuno'n lleol ar daliad am y driniaeth. Nid yw GIG Cymru yn defnyddio tariff safonol. Dylai'r swm a delir adlewyrchu faint a gostiodd y gweithgaredd i'r darparwr yng Nghymru.

## Eithriadau

---

Mae byrddau iechyd lleol yng Nghymru a grwpiau comisiynu clinigol yn Lloegr yn gyfrifol am gomisiynu **gwasanaethau brys ac argyfwng** ar gyfer unrhyw un sy'n bresennol yn eu hardaloedd daearyddol, ni waeth ble y mae'r claf yn byw neu ble y mae wedi'i gofrestru â meddyg teulu, a disgwylir iddynt sicrhau bod trefniadau priodol ar waith.

Mae gofyniad tebyg i ddarparu **gwasanaethau iechyd rhywiol** ar sail mynediad agored (yn Lloegr, mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am gomisiynu gwasanaethau iechyd cyhoeddus fel iechyd rhywiol).